











Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy a Chysylltiedig

## Seithfed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG50695, ISBN argraffu 978-1-83715-287-2, ISBN digidol 978-1-83715-288-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidog | 4 |
| 1. Cyflwyniad | 7 |
| 2. Y Cyd-destun | 12 |
| 3. Hawliau Craidd | 13 |
| 4. Dangosyddion Ansawdd | 15 |
| 5. Adrodd, monitro ac asesu | 20 |
| 6. Sut mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Llywodraeth | 22 |
| 7. Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned | 22 |
| Nodyn diwedd | 24 |

# Rhagair gan y Gweinidog

“Mae gan lyfrgelloedd cyhoeddus le canolog yn ein cymunedau lleol yng Nghymru. Maent yn adnodd gwerthfawr sy’n dod â llyfrau a gwybodaeth i bawb, yn ffisegol a fwyfwy yn ddigidol, a hynny am ddim. Ond maent yn cynnig mwy na hynny. Maent yn llefydd cynnes, diogel a chroesawgar i bobl o bob oed allu cwrdd a dod ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, i ddefnyddio technoleg a lle bo angen, i gael help i ddelio â byd sy’n gynyddol ddigidol.”

**Jack Sargeant**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol



Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn rhan annatod o’n seilwaith cymdeithasol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywydau unigolion a chymunedau. Gall dod yn aelod o’r llyfrgell helpu i leddfu unigedd cymdeithasol ac unigrwydd, mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn helpu ein hiechyd a’n lles trwy ein tywys i ffynonellau gwybodaeth dibynadwy a dilys a thrwy bartneriaethau â darparwyr gwasanaethau iechyd. Yn aml, nhw yw’r gweithgaredd diwylliannol cyntaf y mae plant yn ei brofi ac wrth i blant ddatblygu, mae llyfrgelloedd yn cefnogi eu sgiliau llythrennedd a’u darllen a’u dysgu, ac yn ddrws i’r byd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hanes cryf o gydweithio i wella gwasanaethau llyfrgelloedd er lles defnyddwyr. Rwy’n falch bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi gallu cydweithio i ddatblygu’r fframwaith safonau newydd hwn, sy’n sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i ddatblygu a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i’w cymunedau.

Rwy'n deall wrth ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd, bod angen cydbwyso hynny â gofynion eraill. Rhaid i bob awdurdod lleol ystyried yn ofalus yr hyn sy'n ymarferol ac yn bosibl, ond dylent gofio wastad bod gofyn statudol arnynt i ddarparu 'gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon' fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yw'r fframwaith ar gyfer asesu lefel y ddarpariaeth. Y safonau yw'r mecanwaith hefyd ar gyfer cynllunio a helpu i wella gwasanaethau llyfrgelloedd, sy'n un o ofynion y Ddeddf.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn darparu gwybodaeth sy'n fwy cyd-destunol, i Lywodraeth Cymru allu gwerthuso sut mae gwasanaethau'n datblygu dros amser a gweld hyd a lled y gwasanaethau sydd ar gael. Ceir mwy o ffocws ar dargedau sy'n ymwneud â chraidd y gwasanaeth llyfrgelloedd, sef adnoddau, staff, lle, ac argaeledd - elfennau annatod gofynion statudol gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon". Bydd mwy o bwyslais hefyd ar effaith llyfrgelloedd ar eu cymunedau.

Rwy'n croesawu'r fframwaith Safonau newydd hwn a'i gyfleoedd i'r bartneriaeth gadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus rhagorol i Gymru.

**Jack Sargeant**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol




Julia Donaldson · Nick Sharratt
One Mole Digging A Hole
Julia Donaldson
Nick Sharratt
Goat Goes To Playgroup
BEN BRIL A'R SNICHO
Vivian French

# 1. Cyflwyniad

> Libraries can – and do – play a key role in tackling current societal issues be that adult literacy, digital isolation or early years learning. They can help people into employment, improve health and wellbeing and above all provide a safe, non-judgmental space for people of all ages, no matter who they are or where they are from.
>
> They are, in short, a vital part of our social infrastructure which is why we must be vigilant in protecting them for future generations.[1]
>
> CILIP,
> Come rain or shine

## 1.1 Manteision defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus yn dod â budd i unigolion a chymunedau. Maent yn cyfrannu at iechyd meddwl a lles, cynhwysiant cymdeithasol ac yn cydlynu cymunedau. Yn ogystal â chefnogi llythrennedd a darllen er mwynhad, mynediad at hyfforddiant a chymorth dysgu i unigolion, mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at gymdeithas mewn sawl ffordd fel:

— mynd i'r afael ag allgáu digidol drwy ddarparu mynediad i Wi-Fi, offer TG a hyfforddiant sgiliau digidol sy'n cefnogi cynhwysiant digidol

— darparu mannau cynnes, croesawgar a chynhwysol

— mynediad at adnoddau a gweithgareddau iechyd a lles

— cyfleoedd diwylliannol a chreadigol mewn cymunedau lleol

— cefnogi'r economi gylchol drwy fenthyg eitemau drwy fentrau fel y llyfrgell pethau

— hysbysu eu cymunedau am yr her i'r hinsawdd a gwella ymateb Cymru i'r argyfwng hinsawdd; a

— darparu mannau cyfarfod cyfrinachol i sefydliadau eraill e.e. banciau a gwasanaethau iechyd gwrdd â defnyddwyr.

Gall cymryd rhan mewn rhaglenni darllen fel Her Ddarllen yr Haf dan arweiniad llyfrgell helpu i wella lefelau llythrennedd plant, eu hyder a meithrin cariad at ddarllen. Mae ymchwil wedi dangos bod plant sy'n darllen yn rheolaidd yn sgorio'n uwch mewn profion mathemateg, geirfa a sillafu.[2]

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn rhan o'n seilwaith cymdeithasol. Mae ganddynt rôl bwysig mewn cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi a lleihau unigrwydd. Gwnant hynny drwy weithgareddau sy'n annog rhyngweithio cymdeithasol a chyd-ddysgu neu drwy roi cyfle i ryngweithio â staff a chwsmeriaid y llyfrgell mewn amgylchedd sy'n gofyn am ddim yn ôl. Efallai mai'r llyfrgell yw'r unig le yn y gymuned lle mae pobl yn cael treulio amser mewn lle diogel, croesawgar, di-feirniadaeth a niwtral.

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn rhannu eu lleoliad fwyfwy â gwasanaethau eraill awdurdodau lleol gan ddefnyddio model yr 'hyb cymunedol'. Drwy hynny, mae defnyddwyr yn cael cyrchu neu gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill, fel help i chwilio am waith, cael help â budd-daliadau, eu hatgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Hyn oll yr un pryd ag ymweld â'r llyfrgell.

## 1.2 Beth mae hyn yn ei olygu i bobl Cymru

Mae Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn adeiladu ar y datblygiadau yn y chweched fframwaith. Mae'n cynnwys tri ar ddeg o Hawliau Craidd a phum Dangosydd Ansawdd gyda thargedau a chwe Dangosydd Ansawdd heb dargedau i fonitro i ba raddau y mae gwasanaethau llyfrgelloedd yn dod â'r manteision hyn i bobl Cymru. Nid yw'r berthynas rhwng buddion a dangosyddion yn un simplistig, gan nad oes modd mesur yn uniongyrchol canlyniadau ac effeithiau ar lefel gwasanaeth cyfan. Rhaid dod i'w deall trwy ddangosyddion ehangach. Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion yn y fframwaith hwn sydd fwyaf uniongyrchol gysylltiedig â rhai o brif fanteision defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus, fel y nodwyd gan fframwaith yr Universal Library Offer gan Libraries Connected.[3] Bydd llyfrgelloedd sy'n llwyddo i fodloni'r dangosyddion hyn yn gweithio'n briodol â'u cwsmeriaid i wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Mae Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansawdd eraill yn ymwneud â rheoli gwasanaethau, sy'n sail i sicrhau'r canlyniadau a'r effeithiau yn effeithiol. Gall fod cysylltiad rhwng pob un ag un neu fwy o saith o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Gwella llythrennedd a mynediad digidol**
Hawliau Craidd: 1, 2, 6, 7, 13
Dangosyddion Ansawdd: A2, A3, A4, B3, B5

**Helpu pawb i wireddu eu potensial llawn**
Hawliau Craidd: 1, 2, 3, 4, 6, 7, 8, 10, 13
Dangosyddion Ansawdd: A1, A2, A3, B1, B3, B5

**Bywydau Iachach a Hapusach**
Hawliau Craidd: 1, 2, 3, 4, 6, 8
Dangosyddion Ansawdd: A2, A3, B1, B4

**Cyfoethogi diwylliannol a chreadigol**
Hawliau Craidd: 1, 2, 6, 8, 9
Dangosyddion Ansawdd: A1, A2, A3, A5

**Mwy o ffyniant**
Hawliau Craidd: 1, 2, 11
Dangosyddion Ansawdd: A2, A3, B5

**Mwy o lythrennedd ac o ddarllen**
Hawliau Craidd: 1, 2, 3, 6, 8, 9
Dangosyddion Ansawdd: A1, A2, A3, A5

**Cymunedau cryfach a gwydnach**
Hawliau Craidd: 1, 2, 4, 5, 8, 10
Dangosyddion Ansawdd: A2, A3, B1, B4



## 1.3 Ysgwyddo'r ddyletswydd statudol

Mae *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964*[4] (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion perthnasol Cymru (ar adeg cyhoeddi, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol)

> "i oruchwylio a hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol… ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'n briodol y swyddogaethau ynghylch llyfrgelloedd a roddwyd iddynt fel awdurdodau llyfrgell o dan y Ddeddf hon. O dan yr un Ddeddf, mae gofyn i awdurdodau llyfrgell ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd am ei ddefnyddio."

Ers 2002, mae Gweinidogion Cymru wedi ysgwyddo'r ddyletswydd hon drwy gylch o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS, neu'r Safonau). Bydd Fframwaith 7 yn rhychwantu'r cyfnod 2025-2028. Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol, mae gan y fframwaith WPLS ran werthfawr i'w chwarae o ran cefnogi datblygiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae consensws ymhlith rhanddeiliaid sy'n darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru bod y fframweithiau mesur perfformiad hyn, a gyflwynwyd ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector, wedi helpu i wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Er enghraifft, oherwydd y Safonau, bu gwelliant sylweddol mewn meysydd fel y ddarpariaeth Gymraeg, a darparu gwasanaethau TGCh sydd bellach yn hawl craidd yn hytrach na tharged datblygu.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol (o dan adran 7 o'r Ddeddf) i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd ac annog oedolion a phlant i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud eu dyletswydd o dan Ddeddf 1964. Bydd hefyd yn asesu pa mor gynhwysfawr ac effeithlon y mae gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru yn cael eu darparu.

# 1.4 Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned

Cafodd canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned eu diweddaru ar gyfer Fframwaith 6 ac fe'u cynhwysir yma, yn Adran 6. Mae'n rhestru'r meini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni i lyfrgell a reolir gan y gymuned allu cael ei chynnwys yn natganiad blynyddol y gwasanaeth llyfrgelloedd fel rhan o'r gwasanaeth statudol, a'r data y mae angen ei ddarparu am bob llyfrgell a reolir gan y gymuned.




# 1.5 Y seithfed fframwaith ansawdd

Nodau'r seithfed fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru hwn yw:

- galluogi Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru i fodloni gofynion statudol Deddf 1964 o ran goruchwylio awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd 'cynhwysfawr ac effeithlon' ac i hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaethau llyfrgelloedd
- darparu dull ar gyfer cynnal asesiad trylwyr o berfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus
- dangos cysylltiadau clir â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol
- casglu data sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i holl wasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r adroddiad blynyddol
- bod yn dryloyw, yn hawdd ei ddeall a derbyniol i'r holl randdeiliaid
- ymgorffori mesurau canlyniadau i ddangos manteision defnyddio llyfrgelloedd
- defnyddio data ansoddol i nodi effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ar eu cymunedau
- gweithredu fel sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau llyfrgelloedd ac, o ganlyniad, eu cymunedau; a
- cadw baich casglu data awdurdodau lleol mor fach â phosib.

Mae'r fframwaith newydd hwn wedi'i gynllunio i ystyried newidiadau ym maes yr awdurdodau lleol lle mae awdurdodau llyfrgell yn gweithio, ac mae'n rhoi cyfleoedd i lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol ac yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Daw i rym ar 1 Ebrill 2025, a bydd llyfrgelloedd yn llunio eu hadroddiad cyntaf ar sail ei ofynion yn ystod haf 2026. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r fframwaith newydd yn fanwl.

Mae Adran 3 yn rhestru'r 13 **Hawl Craidd**, a'r cwestiynau y dylai awdurdodau eu hystyried wrth gynnal eu hasesiad ar eu sail.

Mae Adran 4 yn disgrifio'r 11 **Dangosydd Ansawdd**, sydd o dri math bras:

- mae **dangosyddion mewnbwn** yn ymwneud yn bennaf â'r hyn y bydd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei roi i bobl Cymru mewn meysydd allweddol er mwyn gallu darparu'r Hawliau Craidd
- mae **dangosyddion allbwn** yn ymwneud â lefelau defnydd. Pan gânt eu hystyried ochr yn ochr â dangosyddion mewnbwn, gallant roi syniad o ba mor effeithlon y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu; a
- mae **dangosyddion canlyniadau** ac effaith yn mesur effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol y gwasanaeth llyfrgelloedd ar ei ddefnyddwyr, a'r gymuned ehangach. Maent yn dangos y gwahaniaeth y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i fywydau pobl.

Bydd adroddiad ar y rhan fwyaf o ddangosyddion bob blwyddyn; efallai y bydd rhai yn destun adroddiad unwaith yn y tair blynedd, er enghraifft, lle mae angen data arolwg defnyddwyr. Ar gyfer rhai dangosyddion, gosodir targedau ffurfiol, er nad yw targedau o'r fath yn briodol bob tro. Bydd disgwyl i lyfrgelloedd gymharu eu perfformiad ar yr holl ddangosyddion â blynyddoedd blaenorol, a chyrraedd unrhyw dargedau sydd wedi'u gosod.

Gall daearyddiaeth, dosbarthiad y boblogaeth a ffactorau eraill mewn awdurdod unigol arwain at wahaniaethau mawr o ran sut i gynllunio a darparu gwasanaeth llyfrgelloedd. Am hynny, mae rhai dangosyddion yn cynnig dewis o ddulliau i awdurdodau llyfrgelloedd Cymru ar gyfer mesur eu gwasanaethau a dylent ddewis y rhai mwyaf priodol i adlewyrchu eu hamgylchiadau.

Nid yw'r ddogfen yn diffinio telerau nac yn rhoi arweiniad ar ddulliau casglu data; ond gwneir hynny yn y templed adrodd a roddir i'r gwasanaethau llyfrgelloedd a gellir gofyn am gopïau.[5] Ym mhob achos, rhoddir canllawiau manwl ar gasglu a chyfrif data i awdurdodau llyfrgelloedd i sicrhau cysondeb a sicrhau bod modd eu cymharu. Defnyddir data sy'n bod eisoes lle gellir. Lle bo'n briodol, mae diffiniadau a dulliau safonol rhyngwladol wedi'u mabwysiadu.

Mae Adran 5 y ddogfen hon yn esbonio'r gofynion o ran cofnodi data mewn adroddiadau, sy'n cynnwys elfen o hunan werthuso a chofnodi disgrifiadol yn ogystal ag ystadegau allweddol am y gwasanaeth a dangosyddion perfformiad. Mae hefyd yn disgrifio'r broses fonitro ac asesu. Bydd yr asesiad yn un holistig. Caiff perfformiad llyfrgell ei asesu ar sail pob agwedd ar y fframwaith, gan gynnwys cydymffurfio â'r Hawliau Craidd, sgôr y Dangosyddion Ansawdd, sawl Dangosydd Ansawdd sy'n cael ei fodloni'n llawn ac yn rhannol, a'r stori sy'n rhoi tystiolaeth o effaith y gwasanaeth ar unigolion a'r gymuned.

Mae'r hyn a ddarperir gan lyfrgelloedd yn cefnogi nifer o ganlyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnig ystod o wasanaethau sy'n aml yn cefnogi dau neu fwy o'r canlyniadau ar yr un pryd. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*[6] yn rhestru saith maes bras sy'n cael blaenoriaeth, ac mae adran olaf y fframwaith hwn yn nodi hyn a'r strategaethau perthnasol eraill y mae'r fframwaith yn eu hategu. Rhoddir arweiniad manylach yn y ddogfen Canllaw a Diffiniadau i helpu awdurdodau lleol.





# 2. Y Cyd-destun

Mae ffurf gwasanaethau llyfrgelloedd Cymru yn amrywio rhwng ac o fewn awdurdodau. Mae'n ymddangos y bydd hyn yn parhau. O ganlyniad, mae'n bwysig casglu data am gyd-destun pob gwasanaeth er mwyn i'r Asesydd Annibynnol a Llywodraeth Cymru allu lleoli'r data o'r adroddiadau. Bydd hynny hefyd yn rhoi llinell sylfaen er mwyn gallu asesu sut mae gwasanaethau'n newid dros amser a'r ystod o wasanaethau a ddarperir ledled Cymru.

Yn ogystal â'r wybodaeth gyd-destunol a gafwyd trwy fframweithiau blaenorol ynghylch nifer y mannau gwasanaeth, gwasanaethau symudol a phoblogaeth, mae Fframwaith 7 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol:

- disgrifiad o sut mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig
- manylion benthyciadau anhraddodiadol a gynigir e.e. teganau, offer TG, offer chwaraeon
- y mathau o weithgareddau a gynigir gan y llyfrgell; a
- y mathau o gymorth a gweithgareddau datblygu sgiliau a gynigir gan y gwasanaeth, gan gynnwys gwaith partneriaeth.

Mae manylion gwirfoddolwyr, eu nifer a'u horiau wedi'u symud o'r dangosydd ansawdd ar staffio i'r wybodaeth gyd-destunol. Defnyddir gwirfoddolwyr fel y gwêl yr awdurdod llyfrgelloedd yn dda, ac felly ystyrir ei fod yn wybodaeth gyd-destunol yn hytrach na dangosydd ansawdd.

# 3. Hawliau Craidd

Mae'r Hawliau Craidd wedi'u hadolygu ar gyfer Fframwaith 7 a rhoddwyd ffocws newydd iddynt, er mwyn i'r cyhoedd wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

I ddechrau, bydd pob awdurdod yn asesu ei hun o ran yr hawliau hyn. Mae nifer o gwestiynau wedi'u pennu, y bydd yn rhaid i'r awdurdod eu hystyried wrth wneud eu hunanasesiad. Nid oes angen ateb cadarnhaol i bob cwestiwn i fodloni'r hawl craidd, ond dylid cyfiawnhau'r asesiad, a allai gyfeirio at ddarpariaeth berthnasol arall, yn yr adroddiad. Bydd yr hunanasesiad yn cael ei adolygu gan yr Asesydd Annibynnol a'i gymedroli gan y Grŵp Cyfeirio Cyfoed i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau.

**HCSLICC 1:** Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.

**HCSLICC 2:** Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu cwsmeriaid.

**HCSLICC 3:** Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu a cheisio gwybodaeth gydol oes, darllen er mwynhad, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden ac iechyd a lles.

**HCSLICC 4:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth sy'n hygyrch i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion penodol.

**HCSLICC 5:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.

**HCSLICC 6:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau ar-lein (ar gael o bell 24 awr y dydd) i bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

**HCSLICC 7:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu defnydd di-dâl o'r Rhyngrwyd gan gynnwys Wi-Fi, ynghyd â mynediad at offer digidol i bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

**HCSLICC 8:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu mynediad i gwsmeriaid at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.

**HCSLICC 9:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

**HCSLICC 10:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.

**HCSLICC 11:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn ymgynghori â chwsmeriaid yn rheolaidd i gasglu eu barn am y gwasanaeth a gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

**HCSLICC 12:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth eu gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel sy'n briodol i'r gymuned.

**HCSLICC 13:** Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu cymorth i helpu i wella sgiliau a hyder digidol cwsmeriaid.




THE READING AGENCY
Ar gael o'ch llyfrgell leol
Available at your local library
Darllen yn Well ar gyfer dementia
Llyfrau wedi eu hargymell a'u dewis gan bobl sy'n byw gyda dementia, gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol.
Reading Well for dementia
Recommended books chosen by people living with dementia, carers and health professionals.
reading-well.org.uk/cymru
All would be well if- if- if-
Say the green bells of Cardiff.
Why so worried, sisters, why?
Sang the silver bells of Wye.
Oh, what will you give me?
Say the sad bells of Rhymney.
Idris Davies, The Bells of Rhymney, 1938.
Lles
Wellbeing
Dementia together
STILL ALICE
JO NESBO
THE JEALOUSY MAN
Agatha Christie
THE DOUBLE CLUE
Grand Slam Man
GARETH THOMAS
JAMES PATTERSON
THE SHUT-IN

# 4. Dangosyddion Ansawdd

Mae'r Dangosyddion Ansawdd yn Fframwaith 7 yn adeiladu ar y fframwaith blaenorol ac yn cynnwys mesurau ychwanegol sy'n ymdrin â chanlyniadau ac effaith y gwasanaeth llyfrgell. Gellir rhannu'r dangosyddion yn fras yn ddau fath:

— y rhai sydd â thargedau, a
— y rhai sydd wedi'u creu i fonitro a meincnodi perfformiad dros amser.

## 4.1 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Rydym wedi amlygu targedau pob un o'r dangosyddion canlynol mewn print trwm.

### DASLLCC A1 Deunyddiau darllen cyfoes a phriodol

Diben y dangosydd hwn yw sicrhau bod digon o fuddsoddiad a chydbwysedd priodol o ran adnoddau ar draws gwahanol rannau'r gymuned.

**a. Dyma'r gyfradd gaffael isaf un y dylai'r awdurdodau llyfrgelloedd ei sicrhau:**

**poblogaeth o lai na 25000 = 250 fesul 1000/ y flwyddyn**

**poblogaeth 25000 – 50000 = 225 fesul 1000/ y flwyddyn**

**poblogaeth o fwy na 50000 = 200 fesul 1000/ y flwyddyn**

b. Bydd yr awdurdodau llyfrgelloedd yn cofnodi pa ganran o'r gyllideb ddeunyddiau sy'n cael ei gwario ar adnoddau i blant.

c. Bydd yr awdurdodau llyfrgelloedd yn cofnodi pa ganran o'u gwariant sydd ar ar e-adnoddau.

### DASLLCC A2 Lleoliad gwasanaethau llyfrgell

Ni wneir unrhyw amod ynghylch lleiafswm oriau agor llyfrgelloedd sefydlog (fesul safle). Fodd bynnag gofynnir i awdurdodau ystyried pa mor ymarferol a hyfyw yw mannau gwasanaeth sydd ar agor am lai na 10 awr yr wythnos. Yn yr un modd, ni wneir unrhyw amod ynghylch pa mor hir y mae llyfrgell deithiol mewn arhosfan neu ba mor aml y mae'n mynd yno, ond disgwylir y bydd llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phob arhosfan a drefnwyd o leiaf 10 gwaith y flwyddyn.

**Bydd awdurdodau yn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol o ran lleoliad mannau gwasanaeth ac arosfannau llyfrgelloedd teithiol, yn ôl dwysedd eu poblogaeth:**

| Dwysedd y boblogaeth | % yr aelwydydd | Pellter o'r Llyfrgell |
|---|---|---|
| **20 neu ragor o bobl i bob hectar** | O leiaf 95% | o fewn 2 filltir i fan gwasanaeth sefydlog |
| **Mwy nag 1 person ond llai nag 20 i bob hectar** | O leiaf 75% | o fewn 2.5 milltir (neu 10 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol |
| **1 person neu lai i bob hectar** | O leiaf 70% | o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol |

Os ydych yn credu eich bod yn bodloni'r Dangosydd Ansawdd hwn mewn ffyrdd eraill, darllenwch y canllawiau sy'n esbonio'n fanylach sut i gofnodi hyn.

### DASLLCC A3 Oriau agor

**a. Dylai llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru sicrhau nad yw cyfanswm yr oriau agor dan ofal staff cyflogedig ar draws yr holl fannau gwasanaeth sefydlog a weinyddir gan yr awdurdod yn llai na 120 awr y flwyddyn fesul pob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.**

b. Bydd yr awdurdodau yn cofnodi nifer yr oriau agor ar draws yr holl fannau gwasanaeth lle darperir y gwasanaeth yn llwyr gan wirfoddolwyr.

c. Bydd awdurdodau yn cofnodi cyfanswm yr oriau agor heb staff ar draws yr holl fannau gwasanaeth sefydlog a weinyddir, gan yr awdurdod fesul pob 1,000 o boblogaeth breswyl (canllawiau i gynnwys e.e. Agor +, peiriannau dosbarthu llyfrau neu systemau hunan-wasanaeth tebyg).

Caiff cyfanswm yr oriau y flwyddyn fesul pob 1,000 o boblogaeth breswyl (gan gynnwys a, b, ac c) ei gyfrifo'n awtomatig a'i gynnwys ar y ffurflen.

### DASLLCC A4 Lefelau staffio a chymwysterau

**Rhaid i wasanaethau llyfrgell gyrraedd targedau a, b, c, a d i fodloni DA A4 yn llawn.**

**a. Rhaid i'r awdurdodau llyfrgelloedd sicrhau lefel staffio o 3.0 (cyfwerth ag amser llawn) ar gyfer y gwasanaeth fesul pob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Nid yw staff nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell, e.e. glanhawyr, yn cael eu cynnwys yn y rhif hwn. Dim ond staff a delir o gyllideb y gwasanaeth llyfrgelloedd y dylid eu cynnwys.**




**b. Ni ddylai cyfanswm y staff (cyfwerth ag amser llawn) sydd â rôl broffesiynol yn y llyfrgell ac sydd â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth fod yn is na 0.6 fesul pob 10,000 o'r boblogaeth breswyl. Wrth gyfrifo, ceir cynnwys staff â chymwysterau mewn meysydd cytras, megis TGCh, rheoli hamdden neu dreftadaeth, neu addysg a dysgu os ydynt mewn swyddi yn y llyfrgell lle mae angen y cymwysterau hynny, a phan fo'r cymwysterau sydd ganddynt yn berthnasol i'w rolau a'u swyddi presennol yn y llyfrgell. Dim ond staff a delir o gyllideb y gwasanaeth llyfrgelloedd y dylid eu cynnwys.**

Bydd awdurdodau hefyd yn cofnodi cyfanswm y staff sydd â chymwysterau llyfrgell.

**c. Rhaid bod gan reolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgelloedd naill ai gymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth, neu gymhwyster cyfatebol.**

Bydd yr awdurdodau yn cofnodi hefyd:

i. ymhle yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol y mae'r swydd hon

ii. y swydd sydd gan y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol))

iii. ymhle yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol y mae'r swydd honno.

**d. Dylai o leiaf 2% o gyfanswm oriau gwaith staff gael ei dreulio yn hyfforddi ac yn datblygu'n bersonol/ broffesiynol yn ystod y flwyddyn. Dylid annog holl staff y llyfrgell i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad perthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau, ac i wella eu sgiliau.**

### DASLLCC A5 Adnoddau yn y Gymraeg

Diben y dangosydd hwn yw sicrhau bod deunyddiau yn y Gymraeg yn cael eu darparu yn unol â gofynion lleol a nodweddion cymdeithasol-demograffig y boblogaeth.

**Dylai'r awdurdodau sicrhau:**

a. **eu bod yn defnyddio o leiaf 4% o'r gyllideb deunyddiau ar adnoddau yn y Gymraeg.**

Bydd yr awdurdodau yn cofnodi hefyd:

b. cyfanswm yr adnoddau Cymraeg sy'n cael eu benthyg am bob 1,000 o bobl yn y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.



## 4.2. Dangosyddion Ansawdd heb dargedau

### DASLLCC B1 Gwneud gwahaniaeth

Mae'r dangosydd hwn yn asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl.

Bydd awdurdodau yn cofnodi o leiaf unwaith yn y cyfnod o dair blynedd:

a. Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth gadarnhaol i'w bywydau (gydag opsiwn penagored i roi enghraifft).

b. Canran y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth gadarnhaol i'w bywydau (gydag opsiwn penagored i roi enghraifft).

c. Dylai llyfrgelloedd gynnwys detholiad o sylwadau ategol o arolygon yn y ffurflen (gweler y canllawiau).

d. Dylai llyfrgelloedd ddisgrifio astudiaeth achos ategol sy'n dangos sut y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i unigolyn neu grŵp o gwsmeriaid. Argymhellir bod llyfrgelloedd yn mabwysiadu'r drefn 'Newid Mwyaf Arwyddocaol' wrth gwblhau'r astudiaeth achos hon (mae gwybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn y canllawiau).

### DASLLCC B2 Defnydd o'r llyfrgell

Gofynnir am y mesurau canlynol o'r defnydd a wneir o'r llyfrgell, sy'n cynnwys defnyddio'r adnoddau ffisegol ac electronig a ddarperir. Gyda'i gilydd, maent yn asesu llwyddiant y llyfrgell o ran denu pobl i ddefnyddio'i gwasanaethau.

Bydd yr awdurdodau yn cofnodi:

a. cyfanswm yr ymweliadau â llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000

b. cyfanswm yr ymweliadau allanol â gwefan y llyfrgell ac ag unrhyw ap cysylltiedig, a gwe-dudalennau'r llyfrgell ar wefan y Cyngor/Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000

c. cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000

d. cyfanswm aelodau'r llyfrgell

e. cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)

f. cyfanswm yr eitemau electronig a lawrlwythwyd. (Mae'r canllawiau'n awgrymu edrych ar draws yr ystod o adnoddau sydd ar gael a defnyddio'r




ystadegau a lawrlwythwyd oddi wrth bob gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru e.e. e-lyfrau, e-sain, e-gylchgronau, e-bapurau newydd, adnoddau hanes teulu a phrofion theori gyrru); a

g. Nifer y cwsmeriaid gafodd eu helpu trwy gymorth anffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

### DASLLCC B3 Bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn elfen allweddol o berfformiad llyfrgell. Mae rhai o'r rhain yn berthnasol i feysydd eraill y fframwaith hwn, ond maent wedi'u grwpio yma gyda'i gilydd gan eu bod yn allweddol i brofiad cyffredinol y cwsmer.

Bydd awdurdodau yn eu cofnodi o leiaf unwaith yn y cyfnod adrodd tair blynedd:

a. canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau ac adnoddau eraill sydd ar gael yn y llyfrgell a ddefnyddir ganddynt amlaf yn 'dda iawn' neu'n 'dda'

b. canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o adnoddau ar-lein sydd ar gael trwy eu gwasanaeth llyfrgelloedd yn 'dda iawn' neu'n 'dda'

c. canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal y maent yn ei phrofi fel cwsmeriaid gan staff y gwasanaeth llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda'

d. canran yr oedolion sy'n credu bod y TG a ddarperir yn y llyfrgell y maent yn ei defnyddio amlaf yn 'dda iawn' neu'n 'dda'

e. canran yr oedolion sy'n credu bod y gwasanaethau ar-lein a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda'

f. canran yr oedolion sy'n credu bod y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio ar y cyfan yn 'dda iawn' neu'n 'dda'; a

g. sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau i'r gwasanaeth llyfrgell a ddefnyddir ganddynt.

Caiff data eu casglu o holiaduron i ddefnyddwyr, yn oedolion ac yn blant, a dylid cynnal yr arolygon yn unol ag arferion ystadegol da, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith hwn. Caiff canllawiau eu cyhoeddi er mwyn sicrhau bod awdurdodau sy'n dewis defnyddio eu harolygon eu hunain yn cael canlyniadau y gellir eu cymharu ag eraill. Caiff yr awdurdodau gynnal arolygon yn amlach os dymunant ac adrodd yn unol â hynny.

## DASLLCC B4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles

Bydd awdurdodau:

a. yn rhoi disgrifiad byr o'r mathau o wasanaethau, adnoddau a gweithgareddau y mae eich gwasanaeth llyfrgelloedd yn eu darparu i gefnogi iechyd a lles unigolion a'r gymuned (e.e. atgyfeirio at wasanaethau iechyd a lles allanol; adnoddau i gefnogi iechyd a lles yn y llyfrgell ac ar-lein; gweithgareddau i gefnogi iechyd a lles). Lle bo'n berthnasol, cynhwyswch ddelweddau i gefnogi'ch disgrifiad ysgrifenedig)

b. yn darparu astudiaeth achos fer i ddangos effaith un neu fwy o agweddau ar y cymorth iechyd a lles a ddarperir gan y llyfrgell ar unigolyn neu grŵp o gwsmeriaid y llyfrgell. (Cewch fwy o wybodaeth yn y canllawiau); a

c. chofnodwch nifer y benthyciadau o deitlau o gyfres Darllen yn Well yng Nghymru.

## DASLLCC B5 Nifer y defnyddwyr yn mynychu digwyddiadau'r llyfrgell

Diben y dangosydd hwn yw amcangyfrif pa mor atyniadol yw digwyddiadau i'r boblogaeth a wasanaethir gan y llyfrgell ac i ba raddau y mae'r digwyddiadau'n diwallu angen lleol.

Bydd awdurdodau:

a. yn cofnodi'r cyfanswm sy'n dod i'r digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ei fannau gwasanaeth ei hun neu mewn lleoliadau eraill o fewn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, a'i luosi â 1,000.

Cynhwyswch ddigwyddiadau:

— sydd â bwriad llenyddol, diwylliannol neu addysgol, e.e. ymweliadau gan awduron, grwpiau darllen, trafodaethau llenyddol, gweithdai llythrennedd digidol a deall gwybodaeth, gweithdai hel achau, llythrennedd iechyd, llythrennedd ariannol, chwilio am swydd ac ati.

— yn benodol ar gyfer plant, fel adrodd straeon, barddoniaeth, cerddoriaeth; a

— digwyddiadau a gynhelir gan bartneriaid mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth llyfrgelloedd.

b. rhowch dair enghraifft o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cynnwys pobl ag anghenion penodol. Gellir hyrwyddo'r digwyddiadau neu'r gweithgareddau yn benodol ar gyfer grŵp penodol, neu gallent fod yn agored i bawb, ond bod ganddynt grŵp targed clir mewn golwg. Ar gyfer pob enghraifft a nodir, rhowch ddisgrifiad byr o'r gweithgaredd; nodwch y grŵp targed; ac eglurwch sut mae'r gweithgaredd yn addas i'r grŵp targed.

Bydd anghenion penodol yn amrywio gan ddibynnu ar boblogaethau lleol, ond gallant gynnwys ffactorau fel anabledd, lefelau llythrennedd isel, digartrefedd, diweithdra, cyfrifoldebau gofalu, a siaradwyr ieithoedd heblaw am y Gymraeg/Saesneg.

## DASLLCC B6 Gwariant gweithredol

Bydd yr awdurdodau yn cofnodi:

a. cyfanswm y gwariant refeniw fesul pob 1,000 o'r boblogaeth breswyl

b. canran o'r cyfanswm a wariwyd ar:

— staff
— deunyddiau ac adnoddau gwybodaeth
— cynnal a chadw, trwsio ac adnewyddu offer ac adeiladau; a
— costau gweithredol eraill.



# 5. Adrodd, monitro ac asesu

Mae'r gofynion statudol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi'u hymgorffori yn Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud eu dyletswydd o dan Ddeddf 1964, ac i asesu effeithlonrwydd y ffordd y darperir gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru.

## 5.1 Gofynion adrodd

Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani gan Lywodraeth Cymru i wneud ei dyletswyddau.

Bob blwyddyn, mae gofyn i bob awdurdod lleol lunio adroddiad ar ei berfformiad ar sail elfennau gwahanol y fframwaith. Bydd templed a chanllawiau adrodd yn cael eu darparu i awdurdodau i sicrhau bod adroddiadau yn gyson ledled Cymru a bod modd eu cymharu.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

— sgôr cydymffurfio â'r Hawliau Craidd – i ddangos a ydyn nhw'n cael eu bodloni'n llawn, eu bodloni'n rhannol, neu ddim yn cael eu bodloni o gwbl, gyda disgrifiad / esboniad priodol

— data sy'n dangos perfformiad ar sail y Dangosyddion Ansawdd sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith hwn, ynghyd â chymhariaeth â'r flwyddyn cynt.

**Ar gyfer pob hawl neu darged sydd heb ei fodloni'n llawn neu lle mae perfformiad wedi dirywio, rhaid i'r adroddiad gynnwys strategaeth ar gyfer gwella yn y flwyddyn ganlynol.**

Caiff y data ei grynhoi i roi trosolwg o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, i helpu i nodi arfer da, a meysydd lle gallai fod angen gweithredu i sicrhau gwelliant.

### 5.1.1 Effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus

Nid yw'n hawdd mesur effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus – y gwahaniaeth y mae'r gwasanaethau hynny'n ei wneud i fywydau pobl. Am hynny, bydd elfen ansoddol yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad. Dylai pob awdurdod ddarparu hefyd ddwy astudiaeth achos benodol yn disgrifio effaith y gwasanaeth llyfrgelloedd ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Mae'r astudiaethau achos hyn yn ymwneud â DASLICC B1 Gwneud gwahaniaeth a DASLICC B4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles.

Disgwylir i awdurdodau ddisgrifio nid yn unig y gwasanaeth a ddarperir a'i ddefnydd, ond hefyd y canlyniadau i'r unigolion neu aelodau'r grŵp. Darperir canllawiau ar fformat yr astudiaethau achos a'r deunydd priodol i'w cynnwys. Bydd astudiaethau achos o'r fath yn adeiladu i fod yn dystiolaeth werthfawr o effaith a gwerth a byddant yn help i ledaenu arferion da ledled Cymru.

### 5.1.2 Cyfeiriad strategol ac yn y dyfodol

Ail elfen ansoddol yr adroddiad fydd naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at agendâu awdurdodau lleol a blaenoriaethau ac amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw fframweithiau deddfwriaethol perthnasol.

Pwrpas hyn fydd annog llyfrgelloedd i fod yn ymwybodol o'r sbardunau cymdeithasol ehangach (e.e. iechyd a lles; cynhwysiant digidol gan gynnwys llythrennedd gwybodaeth; llythrennedd, gan gynnwys darllen a'r cysylltiad â llythrennedd digidol; ymgysylltu â'r gymuned a buddion cymunedol, gan gynnwys teuluoedd, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, diwygio lles; y Gymraeg a diwylliant Cymru), a dylai eu gwasanaeth allu dangos ei fod yn cyfrannu atynt a gwneud yn amlwg eu perthnasedd a'u gwerth i lunwyr polisi ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Dylid cynnwys disgrifiad cryno o gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn nesaf. Bydd gofyn i awdurdodau gadarnhau hefyd bod yr aelod sy'n gyfrifol am wasanaethau llyfrgelloedd wedi ystyried yn ddigonol adborth, ar ffurf barn am berfformiad gan bob gwasanaeth llyfrgell yn y flwyddyn, a bod y gweithdrefnau rheoli, craffu a monitro perfformiad perthnasol wedi'u hystyried hefyd.

## 5.2 Gweithdrefnau monitro ac asesu

### 5.2.1 Rôl yr Asesydd Annibynnol

Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn arwain y broses fonitro ac asesu a bydd yn dilyn y patrwm a sefydlwyd mewn fframweithiau cynharach. Dylid cyflwyno datganiadau blynyddol erbyn y dyddiad cau bob blwyddyn a byddant yn cael eu hasesu gan asesydd annibynnol. Bydd yr asesydd annibynnol wedyn yn paratoi adroddiad adborth ysgrifenedig ffurfiol, yn cwmpasu pob agwedd ar y fframwaith, gan gynnwys yr holl Ddangosyddion Ansawdd ac elfennau naratif.

Bydd yr asesydd annibynnol yn paratoi trosolwg cryno hefyd bob blwyddyn, fydd yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad cyffredinol, a thueddiadau arwyddocaol y perfformiad hwnnw, ar sail yr hawliau craidd a'r Dangosyddion Ansawdd. Bydd y perfformiadau gorau, gwaethaf a chanolrif yng Nghymru yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob dangosydd lle medrir. Bydd y dadansoddiad cyffredinol yn cael ei anfon at bob awdurdod lleol, fel arfer yn ystod seminar flynyddol. Ar ddiwedd cyfnod y fframwaith, bydd adroddiad crynhoi, yn disgrifio tueddiadau'r tair blynedd, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[7].

### 5.2.2 Rôl Grŵp Cyfeirio'r Cydweithwyr

Bydd yr adroddiadau'n cael eu cymedroli gan Grŵp Cyfeirio'r Cydweithwyr a fydd yn cynnwys uwch lyfrgellwyr cyhoeddus a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Eu rôl yw sicrhau cysondeb yn yr adroddiadau a chynrychioli llais y sector.

### 5.2.3 Lledaenu'r adroddiadau

Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno i bob awdurdod yn yr hydref, mewn pryd i ddelio ag unrhyw broblemau a godir fel rhan o'u proses cynllunio gwasanaeth ffurfiol. Bydd yr adborth hwn yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i brif weithredwyr awdurdodau lleol ac arweinwyr cynghorau, yn ogystal ag i reolwyr gwasanaethau llyfrgelloedd. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Tynnir sylw'r Gweinidog perthnasol bob blwyddyn at ganfyddiadau'r prosesau hyn, gan roi sylw arbennig i'r hyn a gyflawnwyd a thueddiadau a phroblemau, megis perfformiad sy'n dirywio, methiant i gydymffurfio neu ddiffyg sy'n ailadrodd, ynghyd â diagnosis o'r achosion lle medrir.

Mae'r Hawliau Craidd a'r Dangosyddion Ansawdd a ddisgrifir yn y fframwaith hwn yn ymdrin ag agweddau ar y gwasanaeth llyfrgelloedd sydd ym marn Llywodraeth Cymru yn angenrheidiol – ond na fydd o reidrwydd yn ddigon – i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon o dan amodau Adran 10 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus 1964.

# 6. Sut mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Llywodraeth

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at wireddu ystod eang o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Darlun yn unig yw'r rhestr isod o strategaethau - nid yw'n gynhwysfawr. Gall strategaethau a pholisïau eraill ddod i rym yn ystod oes Fframwaith 7 a dylid eu hystyried os byddant yn berthnasol. Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch sut i'w defnyddio yn y ddogfen Canllaw a Diffiniadau sydd wedi'i rhoi i awdurdodau.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[8]
- Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant – disgwylir eu cyhoeddi yn 2025. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn fframwaith strategol bwysig y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru weithredu trwyddo, gydag adroddiadau blynyddol yn esbonio sut maen nhw'n cael eu gwireddu.
- Strategaeth Ddigidol[9]
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[10]
- Cynllun Gweithredu LHDTC+[11]
- Cymru o Blaid Pobl Hŷn[12]
- Unigrwydd ac ynysu cymdeithasol[13]

# 7. Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned



Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn argymell, i allu ystyried llyfrgelloedd o'r fath fel rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod, eu bod yn bodloni'r Hawliau Craidd. At ddiben Fframwaith 7, gellid cynnwys llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned sy'n derbyn cefnogaeth ddi-dor gan wasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol o ran rhannu adnoddau, staff cymwysedig a phrofiad 'di-fwlch' i gwsmeriaid. Er enghraifft, gall llyfrgelloedd sy'n cydymffurfio â'r modelau canlynol fod yn gymwys:

- caiff elfennau o'u hadnoddau a'u staff eu darparu neu eu trefnu gan y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol, ond bod yr adeilad yn eiddo i'r gymuned a bod y cyngor cymuned yn cyfrannu at y staffio a'u bod yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth llyfrgelloedd; a
- bydd ychydig o'r adnoddau a staff rheolaidd (oriau diffiniedig) yn cael eu darparu gan y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol, bydd yr adeilad yn eiddo i'r gymuned a cheir cymorth gwirfoddolwyr.

Nid yw modelau sy'n cynnwys trosglwyddo'r adeilad a'r adnoddau i'r gymuned ac sy'n cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr heb fawr o gymorth (os o gwbl) gan y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol i reoli'r cyfleuster yn gymwys i'w cynnwys.

Efallai y bydd modelau gwahanol yn bodoli o fewn awdurdod, fel y gellir cynnwys rhai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn yr adroddiad, ond efallai y bydd yn rhaid gwrthod eraill.

Er mwyn ystyried yn llawn a ellir cynnwys llyfrgell a reolir gan y gymuned yn y gwasanaeth statudol, dylid bodloni o leiaf y meini prawf canlynol, ynghyd â'r holl Hawliau Craidd:

— cytundeb lefel gwasanaeth gyda gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol i gynnwys gweithgareddau rhannu adnoddau fel benthyciadau rhwng llyfrgelloedd

— staff cyflogedig, wedi'u hariannu gan wasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol neu ffynonellau eraill (e.e. cynghorau cymuned), ar gael am 50% o amser agor y llyfrgell a bennir yn y cytundeb lefel gwasanaeth)

— darparu amrywiaeth o ddeunydd, e.e. llyfrau, amlgyfrwng/clyweledol, mynediad i'r rhyngrwyd a staff i gefnogi mynediad at yr adnoddau hyn a'u defnyddio

— cymorth yr awdurdod gyda'r cyfleusterau TGCh, fydd yn ddi-dâl yn y man defnyddio; a

— mynediad llawn i aelodau'r cyhoedd at gatalog llyfrgell yr awdurdod lleol a'i ddefnyddio, gan gynnwys y gwasanaeth cadw. Byddai disgwyl i staff cyflogedig gael defnyddio'r LMS.

Pwrpas y meini prawf hyn yw sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cynhwysfawr ac effeithlon o ansawdd uchel sy'n cael ei ystyried yn deilwng o'r gwasanaeth statudol. Gall llyfrgell a reolir gan y gymuned fodloni'r holl feini prawf a ddisgrifir uchod, ac os yw'n eu bodloni a'r Hawliau Craidd, gellid ystyried ei fod yn rhan o'r gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus statudol a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Fel y nodwyd uchod, gellir gwneud hyn drwy ymuno â phartneriaeth gyda gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus eu hawdurdod lleol a/neu weithio gyda chynghorau a grwpiau cymunedol.

## 7.1 Adrodd a chasglu data

Os yw'r awdurdod o'r farn bod llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn rhan o'r gwasanaeth statudol ac yn eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, mae'r canllaw ynghylch pa ddata i'w casglu a sut, yn berthnasol i'r holl lyfrgelloedd. Dylid casglu data am lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned â'r un trylwyredd â llyfrgelloedd eraill.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru am fonitro'r cymorth a'r adnoddau a roddir i lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn yr awdurdod, ac i ba raddau y maent wedi'u cynnwys yn y dangosyddion yn y fframwaith hwn. Felly, gofynnir i bob awdurdod ddarparu'r wybodaeth ganlynol, fel rhan o'r data cyd-destunol yn yr adroddiad:

a. nifer y llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned y mae'r awdurdod yn darparu'r canlynol ar eu cyfer:

    i. staff cyflogedig

    ii. mynediad llawn i aelodau'r cyhoedd at gatalog llyfrgell yr awdurdod lleol a'i ddefnyddio

    iii. cefnogaeth i'r cyfleusterau TGCh

    iv. rhannu a chylchdroi stoc; a

    v. cytundeb lefel gwasanaeth gan gynnwys gweithgareddau rhannu adnoddau fel benthyciadau rhwng llyfrgelloedd; a

b. cyfanswm oriau agor blynyddol llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn yr awdurdod.

Gofynnir am ffigurau ar wahân ar gyfer yr uchod ar gyfer y llyfrgelloedd hynny a reolir gan y gymuned a gynhwysir yn yr adroddiad (h.y. y rhai sy'n bodloni'r pum pwynt bwled uchod), a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys, os ydynt ar gael.

# Nodyn Diwedd

1 Shared Intelligence (2024). CILIP, Come Rain or Shine: Preparing public libraries for the future in an age of uncertainty. London, CILIP.

2 OECD (2010). PISA 2009 Results. Learning to learn: Student Engagement, Strategies and Practices (Volume III). PISA, OECD Publishing: Paris. https://doi.org/10.1787/9789264083943-en.

3 Libraries Connected (2018). Universal Library Offers. Ar gael yn: www.librariesconnected.org.uk/page/universal-library-offers

4 Public Libraries and Museums Act 1964 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75/contents

5 E-bostiwch culture@gov.wales i ofyn am gael gweld y canllaw a'r diffiniadau.

6 Gweler Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion Ar gael yn: www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

7 Llyfrgelloedd ac archifdai Ar gael yn: www.llyw.cymru/llyfrgelloedd-archifdai

8 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion Ar gael yn: www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

9 Strategaeth ddigidol i Gymru Ar gael yn: www.llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru

10 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: 2022 Ar gael un: www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-2022

11 Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru Ar gael yn: www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru

12 Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio Ar gael yn: www.llyw.cymru/cymru-o-blaid-pobl-hyn-ein-strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio

13 Unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol (cysylltu cymunedau) Ar gael yn: www.llyw.cymru/unigrwydd-ac-ynysigrwydd-cymdeithasol-cysylltu-cymunedau

# Clodydd Delwedd

**Delwedd clawr 1:** Llyfrgell Bargoed.
(Banc ffotograffau Llyfrgelloedd Cymru)

**Delwedd clawr 2:** Joseph Coelho gyda thystysgrif Her Ddarllen yr Haf.
(Llyfrgelloedd Awen)

**Delwedd clawr 3:** Llyfrgell Llanfairfechan yn agor.
(Llyfrgelloedd Conwy)

**Delwedd clawr 4:** Llyfrgell symudol Ysbyty Ifan.
(Llyfrgelloedd Conwy)

**Tudalen 5:** Sesiwn grefftau yn Llyfrgell Bangor.
(Llyfrgelloedd Gwynedd)

**Tudalen 6:** Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr.
(Banc ffotograffau Llyfrgelloedd Cymru)

**Tudalen 9:** Llyfrgell Caerfyrddin.
(Banc ffotograffau Llyfrgelloedd Cymru)

**Tudalen 10:** Finn gyda thystysgrif Her Ddarllen yr Haf.
(Llyfrgelloedd Conwy)

**Tudalen 11:** Staff Bae Colwyn ar Ddiwrnod y Llyfr.
(Llyfrgelloedd Conwy)

**Tudalen 12:** Grwp lleol yn gwneud defnydd o Wi-Fi Llyfrgell Tywyn.
(Llyfrgelloedd Gwynedd)

**Tudalen 13:** Llyfrgell i blant yn Neaudd Dwyfor.
(Juanita Foster-Jones)

**Tudalen 14**: Casgliad Darllen yn Well yn Llyfrgell Rhymni.
(Bethan Lee)

**Tudalen 16**: Yr Hobyd.
(Llyfrgelloedd Conwy)

**Tudalen 17**: Mwynhau paned a sgwrs yng ngrŵp dysgwyr Llyfrgell Tywyn.
(Llyfrgelloedd Gwynedd)

**Tudalen 18**: Gweithdy gwehyddu yn Llyfrgell Abermaw
(Llyfrgelloedd Gwynedd)

**Tudalen 19**: Cardiau SIM am ddim.
(Llyfrgelloedd Awen)

**Tudalen 22:** Cymraeg i Blant Merionnydd yn Llyfrgell Tywyn.
(Llyfrgelloedd Gwynedd)